Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

ECONOMEG

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch unrhyw ddau gwestiwn.
Cewch ddefnyddio cyfrifianellau safonol nad oes modd eu rhaglennu.

---

1. Mae llywodraethau yn darparu yswiriant cymdeithasol. Yn ystod dirwasgiadau pan fo diweithdra yn cynyddu mae gwariant y llywodraeth ar fudd-daliadau diweithdra yn codi'n awtomatig ac mae gwariant cartrefi yn aros yn uwch na'r gwariant yn absenoldeb taliadau trosglwyddo (budd-daliadau). Esboniwch pam mai llywodraethau yn hytrach na sefydliadau ariannol preifat sy'n darparu yswiriant diweithdra ar ffurf budd-daliadau diweithdra.

   (50 marc)

2. Cyfrifir Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (Cynnyrch Domestig Gros) y pen trwy rannu cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC), sef cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn gwlad mewn blwyddyn benodol, â phoblogaeth y wlad. Esboniwch pam efallai nad yw CMC y pen yn fesur cynhwysfawr o les yn eich barn chi. Amlinellwch pa dull arall o fesur lles y byddech chi'n ei ddefnyddio i wneud iawn am rai o ddiffygion defnyddio CMC y pen.

   (50 marc)

3. Diffiniwch beth yw marchnad a disgrifiwch ei swyddogaethau. Gwnewch yr un peth ar gyfer rhwydwaith cymdeithasol. Rhowch sylwadau ar y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng y ddau ddisgrifiad a ddarparasoch.

   (50 marc)

4. Preifateiddio yw trosglwyddo asedau neu weithgaredd economaidd o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat. Rhowch y dadleuon o blaid ac yn erbyn preifateiddio, gan roi enghreifftiau o

ddiwydiannau/cwmnïau a ddylai fod naill ai dan berchnogaeth breifat neu gyhoeddus yn eich barn chi.

(50 marc)

5. Gan ddefnyddio eich gwybodaeth am hanes economaidd, busnes, gwleidyddiaeth, neu wyddoniaeth a thechnoleg disgrifiwch sefyllfa lle bo'r farchnad yn methu. Esboniwch pam mae'n bodloni'r diffiniad o fethiant y farchnad (pam mae'r dyraniad neu'r sefyllfa a ddisgrifir yn un o 'aneffeithlonrwydd Pareto'). Sut fyddech chi'n datrys y methiant yn y farchnad a ddisgrifiasoch?

(50 marc)

6. Atebwch bob un o'r cwestiynau isod:
    a. Rhowch fraslun o'r ffactorau sy'n gyfrifol am gynnydd masnach rydd rhwng gwledydd. **(25 marc)**
    b. Er gwaethaf y duedd gyffredinol o fasnach fwy rhydd, esboniwch pam y mae rhyfeloedd masnach dwyochrog ar ffurf gwledydd yn codi tariffau a rhwystrau eraill i fasnach yn erbyn gwlad arall, wedi bod yn digwydd.

(25 marc)

7. Yng nghyd-destun cefndir o adnoddau prin a chynnydd mewn cyllidebau a chostau gofal iechyd, mae'r GIG wedi cael cyfarwyddyd i dynnu triniaeth yn ôl yn achos cleifion sy'n cael eu cyflwyno am wasanaethau meddygol i drin cyflyrau iechyd a achoswyd gan eu ffordd o fyw, e.e. cyflyrau sy'n deillio o ysmygu tybaco ac e-sigarennau. Trafodwch oblygiadau (economaidd) y penderfyniad hwn.

(50 marc)

8. Atebwch y ddau gwestiwn isod:

a. Eglurwch agweddau nodweddiadol oligopoli.

(25 marc)

b. Esboniwch sut y gallai awdurdodau atal cydgynllwynio mewn marchnadoedd oligopolaidd. **(25 marc)**